## CYPE(5)-01-21 - Papur i'w nodi 2

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

---

At|To: David Jones, Cadeirydd Cymwysterau Cymru

Dyddiad | Date: 10 Rhagfyr 2020

Pwnc | Subject: **Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2019 - 20**

Annwyl David,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2019-20 yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2020. Diolch i chi am eich presenoldeb yn y cyfarfod hwn, mewn amser sy'n parhau'n amser prysur i Gymwysterau Cymru.

Rydym yn gwerthfawrogi gwaith caled staff Cymwysterau Cymru, ac rydym yn cydnabod bod heriau sylweddol yn parhau nid yn unig i'r rheoleiddiwr, ond i ddysgwyr ac athrawon yng Nghymru wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer cynnal asesiadau yn 2021.

Rydym o'r un farn ag a nodwyd gennych yn y Pwyllgor bod angen i'r sector addysg yn ei ehangder llawn ddod at ei gilydd i ddarparu datrysiad i ddysgwyr. Fel Pwyllgor, byddwn yn ystyried canlyniadau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Darparu pan fyddant ar gael, ac yn gweithredu penderfyniadau'r Gweinidog dros y gwanwyn.

Cododd eich sesiwn dystiolaeth gyda ni ddau fater yn benodol yr ydym yn eu trafod isod.

Yn gyntaf, o ran mater dealltwriaeth y cyhoedd a chyfathrebu. Dywedasoch wrthym yn glir mai un o'r prif wersi a ddysgwyd gennych yn 2020 oedd bod angen rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwell dealltwriaeth gan y cyhoedd o'r cynlluniau yn y pen draw ar gyfer asesu yn 2021. Mae hyn yng nghyd-destun llais cryfach gan ddysgwyr. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn ac yn croesawu eich didwylledd adeiladol ar y pwnc. Gwnaethom hefyd nodi canfyddiadau'r archwiliad mewnol o'ch gweithgarwch cyfathrebu, a mynegwyd ein barn ynghylch pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol.

Felly byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi mewn gohebiaeth atom y camau yr ydych yn eu cymryd mewn cysylltiad â'r gwersi a ddysgwyd am ddealltwriaeth y cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a'r camau yr ydych yn eu cymryd o ran canfyddiadau eich archwiliad mewnol yn ymwneud â chyfathrebu.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565


**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

Fel rhan o hyn, byddai’n ddefnyddiol iawn pe gallech roi manylion am sut y byddwch yn sicrhau gweleddedd ac eglurder negeseuon, ac yn ymgysylltu ynghylch cymwysterau galwedigaethol, ac yn cyfleu eich penderfyniadau, eich rhesymu a’ch gweithgarwch yn y maes mwy cymhleth hwn. Wrth ystyried y flwyddyn nesaf, credwn y byddai’n ddefnyddiol i’n pwyllgor olynol pe gallai eich Adroddiad Blynyddol nodi cynnydd yn ôl pob un o’r materion hyn, a’ch amcanion ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig â dysgwyr.

Yn ail, yn eich tystiolaeth i ni, gwnaethoch ddadlau y bydd angen “adfer safonau” er mwyn sicrhau bod cymwysterau yn parhau i weithredu fel y mae rhanddeiliaid yn ei ddisgwyl. Er mai mater ar gyfer y dyfodol agos yw hwn yn hytrach nag yn awr, rydym o’r farn y bydd angen ei ystyried a myfyrio yn ei gylch yn ofalus. Yn hynny o beth, credwn y byddai hefyd o gymorth i’n pwyllgor olynol pe bai eich Adroddiad Blynyddol nesaf yn adrodd ar hyn, a rhoesoch farn, fel y rheolydd annibynnol, ar y mater pwysig hwn.

Diolch unwaith eto, i chi a thîm Cymwysterau Cymru am eich ymgysylltiad â’n gwaith yn ystod 2020 - edrychwn ymlaen at weithio gyda chi wrth inni nesáu at etholiad y Senedd, wrth inni ddwyn ein gwaith craffu fel Pwyllgor i ben.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh